| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **10 TACHWEDD 2016** |
| **TEITL** | **PRISIAD ACTIWARAIDD 2016 – DIWEDDARIAD AR Y BROSES** |
| **PWRPAS** | **Hysbysu'r pwyllgor am y gwaith hyd yn hyn a'r canlyniadau drafft** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDIADAU** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae actwari'r Gronfa Bensiwn yn gweithio ar y prisiad actiwaraidd hyd at 31 Mawrth 2016 ar hyn o bryd. Mae'r broses wedi cyrraedd y pwynt lle mae Canlyniadau Prisiad Ffurfiol Cychwynnol 2016 wedi cael eu cynhyrchu ar lefel gronfa gyfan. Mae cyfradd cyfraniadau cyffredinol cyflogwyr wedi cael ei gyfrifo a bydd cyflogwyr yn derbyn eu cyfraddau unigol ar 10 Tachwedd.

## 2. CANLYNIADAU CYCHWYNNOL Y PRISIAD CYLLIDO FFURFIOL 2016

Mae'r lefel cyllido ar sail ariannu gytunedig wedi gwella o 85% yn 2013 i 91% yn 2016, h.y. mae'r diffyg ariannu wedi lleihau. Y prif reswm am y newid yn y lefel ariannu dros y cyfnod oedd dychweliadau buddsoddi yn well na rhagwelwyd. Mae'r rheiny wedi gosod yn erbyn gwerth yr ymrwymiadau oherwydd y newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos canlyniadau ddrafft cychwynnol y gronfa gyfan o brisiad ffurfiol 2016 yn seiliedig ar ein sail gytunedig, gyda chanlyniadau prisiad ffurfiol 2013 wedi'i ddangos fel cymhariaeth.

| **Dyddiad Prisiad** | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2016** |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau Gwasanaeth y Gorffennol** | **£m** | **£m** |
| Gweithwyr | 699 | 762 |
| Pensiynwyr Gohiriedig | 185 | 251 |
| Pensiynwyr | 521 | 657 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau** | **1,405** | **1,670** |
| **Asedau** | **1,195** | **1,525** |
| **Diffyg** | **(210)** | **(145)** |
| **Lefel Cyllido** | **85%** | **91%** |

Felly, bydd lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwyr i ariannu ymrwymiadau gwasanaeth y gorffennol yn lleihau.  Fodd bynnag, bydd prisiad ymrwymiadau gwasanaeth y dyfodol, a lefel cyfraniadau pensiwn cyflogwyr bydd ei angen er mwyn ariannu'r ymrwymiadau hynny, yn cynyddu.

## 3. CYFRADD CYFRANIADAU

O fewn ffigurau lefel y gronfa bydd gwahaniaethau arwyddocaol ar gyfer cyflogwyr unigol, yn dibynnu ar broffil eu haelodau.  Mae gan bob cyflogwr ei gynllun cyllido teilwredig a bydd canlyniadau prisiad yn amrywio yn ddibynnol ar ei aelodaeth, cynllun cyllido a phrofiad ers y prisiad cynt (neu ers iddynt ymuno â’r Gronfa).  Gall cyflwr y farchnad rhoi gwasgedd i fyny ar gyfraddau cyflogwyr yn gyffredinol, ar gyfer gwasanaeth y dyfodol ac ar ad-dalu unrhyw ddiffyg.

## 4. CYFLOGWYR LLAI

Bydd aelodau yn cofio penderfynwyd cael gwared â’r ddau bwl cyflogwyr bach yn ystod proses prisiad 2013. Roedd y Gronfa wedi trefnu yswiriant ymddeoliadau oherwydd salwch er mwyn eu gwarchod nhw rhag costau uchel ar gyfer unrhyw ymddeoliadau o’r fath.  Mae'r newidiadau mewn cyfraniadau cyflogwyr unigol o'r gyfradd pwl yn cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod hirach a bydd hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth osod y cyfraniadau ar gyfer y cyrff hyn.

## 5. CAMAU NESAF

Y garreg filltir nesaf ym mhroses y prisiad yw darparu canlyniadau drafft y cyflogwyr unigol fydd ar gael ar gyfer fforwm y cyflogwyr sydd wedi’i drefnu ar fore 10 Tachwedd, cyn i’r pwyllgor yma cymryd lle yn y pnawn, ac mae croeso i aelodau mynychu.

## 6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i aelodau cytuno’r broses a’r canlyniadau hyd yn hyn.